**Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 2. (See end of Document for details)

PROSPECTIVE

# ATODLEN 4

# Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION SY'N ADDASU NEU'N DIRYMU CYDSYNIAD HENEB GOFRESTREDIG

## RHAN 2

## MYND YMLAEN I WNEUD GORCHYMYN AR ÔL CYFLWYNO HYSBYSIAD

*Gwneud gorchymyn o dan adran 20*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo hysbysiad o dan baragraff 1 wedi ei gyflwyno o dan Ran 1 o'r Atodlen hon.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y gorchymyn y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef oni bai—

(a) bod y cyfnod ar gyfer gwneud gwrthwynebiadau i'r cynnig wedi dod i ben heb i wrthwynebiad gael ei wneud gan berson y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo,

(b) os gwnaed gwrthwynebiad gan berson o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, fod pob gwrthwynebiad o'r fath wedi ei dynnu'n ôl, neu

(c) os gwnaed gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwnnw gan berson o'r fath ac nad yw'r gwrthwynebiad wedi ei dynnu'n ôl, fod gofynion is-baragraffau (3) a (4) wedi eu bodloni.

(3) Mae gofynion yr is-baragraff hwn wedi eu bodloni os yw Gweinidogion Cymru—

(a) yn peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, neu

(b) yn rhoi i'r person a wnaeth y gwrthwynebiad gyfle i ymddangos gerbron person a benodir ganddynt a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Mae gofynion yr is-baragraff hwn wedi eu bodloni os yw Gweinidogion Cymru—

(a) yn ystyried pob gwrthwynebiad a wnaed fel y'i disgrifir yn is-baragraff (2)(c) ac nas tynnwyd yn ôl, a

(b) os oes ymchwiliad neu wrandawiad wedi ei gynnal o dan is-baragraff (3), yn ystyried adroddiad y person a'i cynhaliodd.

(5) Pan fo person yn cymryd y cyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (3)(b) a chael gwrandawiad ganddo, rhaid i Weinidogion Cymru roi'r cyfle i bob un o'r personau a ganlyn i gael gwrandawiad ar yr un pryd—

(a) pob person arall y cyflwynwyd yr hysbysiad o dan baragraff 1 iddo, a

(b) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 20 yn rhinwedd is-baragraff (2)(a) neu (b), rhaid i'r gorchymyn gael ei wneud ar y telerau a nodir gan yr hysbysiad.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 2. (See end of Document for details)*

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 20 yn rhinwedd is-baragraff (2)(c), caniateir i'r gorchymyn gael ei wneud naill ai ar y telerau a nodir yn yr hysbysiad neu gydag addasiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 4 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

*Hysbysu ar ôl gwneud gorchymyn*

4 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn o dan adran 20 rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r gorchymyn—

(a) at bob person y cyflwynwyd hysbysiad o dan baragraff 1 iddo, a

(b) pan—

(i) bo ymchwiliad wedi ei gynnal o dan baragraff 3(3)(a), at unrhyw berson arall a roddodd dystiolaeth yn yr ymchwiliad, neu

(ii) bo gwrandawiad wedi ei gynnal at ddibenion paragraff 3(3)(b), at unrhyw berson arall y rhoddwyd y cyfle iddo i ymddangos yn y gwrandawiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 4 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 2.